
PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN MORGANNWG

**Partneriaeth** Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | West Glamorgan Regional **Partnership**

# CYLCHLYTHYR

HYDREF 2022



## YN Y RHIFYN HWN:

WYTHNOS GWIRFODDOLWYR

SIOE AWYR CYMRU

RHAGLEN IECHYD MEDDWL

ASESIAD POBLOGAETH

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021/22

## CROESO I'N CYLCHLYTHYR

Mae peth amser wedi mynd heibio ers i ni allu darparu diweddariad fel hwn, ond rydym yn hapus iawn i fod nôl a rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am gynnydd y bartneriaeth. Rydym yn dechrau adennill rhywfaint o normalrwydd ar ôl cwpwl o flynyddoedd heriol iawn, fel sy'n wir am bob sefydliad yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Tua diwedd 2021, cawsom y cyfle i bwyso a mesur y rhaglen waith ranbarthol a gwneud rhai newidiadau i'n strwythur a'r ffordd yr ydym yn gweithredu. Rydym hefyd wedi croesawu nifer o recriwtiaid newydd i'r tîm rhanbarthol yn ystod y misoedd diwethaf.

Gyda'r rhaglen yn tyfu a datblygu'n barhaus, mae'n wych bod gennym ragor o bobl i helpu i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ystyrlon a chynhyrchiol. Y nod yw llunio'r bwletinau hyn bob chwarter, felly cadwch lygad am yr un nesaf ar ddechrau 2023 (i ble aeth yr amser?!).

Diolch am ddarllen!

## BETH ARALL SY'N NEWYDD?

Mae ein rhaglen waith bellach wedi'i rhannu'n bedwar pennawd blaenoriaeth â thema allweddol, pob un yn cynnwys cyfres o brosiectau/raglenni. Mae ein gwefan yn rhoi rhagor o fanylion - www.gorllewinmorgannwg.org.uk

Hefyd, efallai eich bod wedi sylwi arnom yn mynd o gwmpas y lle yn y gymuned dros y misoedd diwethaf. Nawr bod y byd wedi ailagor, rydym yn achub ar y cyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd mewn digwyddiadau a sioeau teithiol ar draws y rhanbarth.

Parhewch i ddarllen i gael rhagor o wybodaeth...

# SIOE AWYR CYMRU



Treuliodd Tîm Trawsnewid Gorllewin Morgannwg benwythnos heulog yn sgwrsio â phreswylwyr ac ymwelwyr yn Sioe Awyr Cymru ar 2 a 3 Gorffennaf.
Hwn oedd y tro cyntaf i ni ddefnyddio ein stondin arddangos liwgar ac roedd yn ffordd wych o gysylltu â phobl yn bersonol a chynyddu ymwybyddiaeth o'r rhaglen waith ranbarthol.

Roedd yr awyrgylch yn rhyfeddol, a chawsom ddigon o drafodaethau diddorol a gwerthfawr â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr a staff sy'n gweithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol.




Roedd Kelly Gillings, Cyfarwyddwr Trawsnewid ar gyfer Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, yn bresennol ar gyfer y ddau ddiwrnod, ynghyd ag aelodau eraill o'r tîm. Meddai, "Rydym wedi bwriadu gwneud rhywbeth fel hyn ers amser ac rwy'n hynod falch ein bod wedi llwyddo i wneud i hyn ddigwydd. Tarfodd COVID-19 ar ein cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, ond ers i ddigwyddiadau ailddechrau, rydym wedi bod yn gwneud ein gorau i weithio gyda thimau digwyddiadau ein partneriaid i ledu'r gair am y bartneriaeth".

Roeddem yn bresennol mewn nifer o sioeau teithiol dros yr haf, a bydd gennym stondin yng Ngŵyl Bwyd a Diod Castell-nedd ar 7 i 8 Hydref hefyd. Gobeithiwn eich gweld chi yno!

# IECHYD MEDDWL

Ar 23 Mehefin, cynhaliwyd uwchgynhadledd Iechyd Meddwl gyntaf Gorllewin Morgannwg yng Ngwesty The Village yn Abertawe. Rhoddodd yr uwchgynhadledd, a gynhaliwyd yn arddull sesiwn gweithdy rhyngweithiol, gyfle i gyfranogwyr rannu eu meddyliau, eu profiadau a'u hawgrymiadau ar gyfer gwella.

Sefydlwyd y rhaglen Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl ranbarthol i ddod â sefydliadau ym maes iechyd meddwl at ei gilydd. Ei nod yw darparu cyfeiriad strategol i gryfhau gwasanaethau, gan sicrhau bod y gefnogaeth gywir ar gael ar yr adeg gywir i'r rheini y mae ei hangen arnynt.

Rhoddodd yr uwchgynhadledd fewnwelediad gwych i sut y mae'r gwasanaethau'n gweithio'n ymarferol, a helpodd i nodi'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol i gleifion a gweithwyr proffesiynol.




Cynhelir yr ail uwchgynhadledd iechyd meddwl ddydd Llun 10 Hydref, sy'n cyd-fynd â Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd 2022.

Oes gennych ddiddordeb mewn bod yn bresennol? Cofrestrwch drwy:

www.eventbrite.co.uk/e/west-glamorgan-emotional-wellbeing-and-mental-health-summit-tickets-415171839147

# WYTHNOS GWIRFODDOLWYR



'POP-UP' BAE ABERTAWE

Roeddem wrth ein boddau i allu nodi Wythnos Gwirfoddolwyr yn y DU (1 - 7 Mehefin 2022) gyda chynulliad yn 'Pop-Up' Bae Abertawe ar 7 Mehefin.

Ni fyddai'r bartneriaeth beth ydyw heb gyfraniad ein gwirfoddolwyr gwych. Boed yn gynrychiolydd ar un o'n byrddau neu'n aelod o'r grŵp cydgynhyrchu, mae eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac roedd hi'n wych cael cyfle i gwrdd dros baned.

Roedd Emma Woollett, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Chadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg yn bresennol ar y diwrnod. *Meddai,*

*"Mae wedi bod yn hyfryd gweld pawb yn bersonol ar ôl dros ddwy flynedd o'u gweld ar y sgrîn yn unig, ac i allu dweud diolch am bopeth mae ein gwirfoddolwyr wedi'i wneud ar gyfer y bartneriaeth yn ystod y cyfnod hynod heriol hwn. Wrth edrych i'r dyfodol, hoffem gysylltu â rhagor o breswylwyr y rhanbarth sydd â diddordeb neu brofiad mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae digwyddiadau a gynhaliwyd dros yr haf wedi ein galluogi i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, ond mae gwaith i'w wneud o hyd o ran datblygu rhwydwaith amrywiol o leisiau".*

Os hoffech chi gymryd rhan neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.







Ydych chi wedi clywed am brosiect **Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg** (CGGM)?

Mae'r fenter aml-asiantaeth hon wedi cefnogi datblygiad cyfres o becynnau cymorth, taflenni gwybodaeth ac adnoddau eraill sydd wedi'u hanelu'n bennaf at sefydliadau sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr. Ewch i www.westglamorgan.org.uk/wgvs i ddarganfod mwy.

# ASESIAD O ANGHENION Y BOBLOGAETH



Mae aelodau tîm Gorllewin Morgannwg wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr o sefydliadau partner ers dros flwyddyn i gynnal yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAP). Mae hwn yn un o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'i nod yw casglu gwybodaeth am les, iechyd ac unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag byw bywyd hapus a chyflawn.

Dyma'r ail asesiad o'r math hwn (cynhaliwyd y cyntaf yn 2017 pan oeddem yn dal i gael ein galw'n 'Bae'r Gorllewin'). Mae'n deg dweud ei bod wedi bod yn her sylweddol gan fod yr amseru wedi cyd-fynd â chyfnod adfer COVID-19, ond rydym wedi gwneud ein gorau i ddatblygu sylfaen dystiolaeth sy'n darparu man cychwyn cadarn ar gyfer y gwaith hwn.

Mae cyngor atodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru y llynedd yn disgrifio'r AAP fel 'taith barhaus', ac yn sicr dyna'r ymagwedd a fydd yn gweithio i ni gan y byddwn yn ychwanegu at ein data ac yn ei ddiwygio pan fydd yr wybodaeth a'r gwaith ymchwil newydd yn dod i'r amlwg.

Cliciwch ar y ddolen isod i weld AAP Gorllewin Morgannwg 2022/27.


**WWW.WESTGLAMORGAN.ORG.UK/WEST-GLAMORGAN-POPULATION-NEEDS-ASSESSMENT-2022-2027**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021/22

Cwblhawyd ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf dros yr haf ac mae ar gael i'w weld ar ein gwefan:

www.westglamorgan.org.uk/annual-report

Dyma'r trydydd Adroddiad Blynyddol i ni ei lunio ers sefydlu 'Gorllewin Morgannwg' yn ffurfiol yn 2019. Yn naturiol, roedd fersiwn y llynedd yn llawn manylion am ymdrech cymorth COVID-19, felly rydym yn falch o allu canolbwyntio ar gyflawniadau'r agenda drawsnewid ehangach y tro hwn. Mae'n cynnwys astudiaethau achos a chyfraniadau gan y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr a'r cynrychiolwyr gwirfoddol sy'n aelodau o'n byrddau, yn ogystal â diweddariadau ar y gwahanol brosiectau a chynlluniau trydydd sector a ariennir drwy Gorllewin Morgannwg.




# MAE EICH ANGEN CHI AR ORLLEWIN MORGANNWG!

Oes gennych chi ddiddordeb mewn ymwneud â'n gwaith? Rydym yn chwilio am gynrychiolwyr Defnyddwyr Gwasanaethau gwirfoddol i ymuno â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg. Dyma gyfle i bobl sydd â diddordeb mewn gofal iechyd a chymdeithasol a/neu brofiad ohono fynegi'u barn a helpu i lywio gwasanaethau ar draws Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Fyddai diddordeb gennych chi? Os felly, cysylltwch â ni (gweler y manylion cyswllt isod) erbyn 19 Hydref 2022 i gofrestru'ch diddordeb.

Am ragor o wybodaeth am Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, e-bostiwch west.glamorgan@abertawe.gov.uk neu ffoniwch 01792 633 805.
Mae'r cylchlythyr hwn ar gael mewn fformatau gwahanol - cysylltwch â ni gyda manylion eich gofynion.